

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

#### Y Mesur Iechyd Meddwl Drafft

##### Cefndir

1. Ar 14 Hydref 2004 fe wnaeth y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried y Mesur Iechyd Meddwl drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 8 Hydref er mwyn craffu arno cyn y broses ddeddfu. Gwahoddodd y Pwyllgor y sefydliadau hynny yng Nghymru a gyflwynodd dystiolaeth ar y Mesur drafft blaenorol ym mis Medi 2002 i wneud hynny eto. Gwelir copïau o'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd cyn y cyfarfod mewn atodiad i'r adroddiad hwn, ynghyd â chofnodion y cyfarfod.

2. Dyma'r sefydliadau a gynrychiolwyd:

- ◆ Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- ◆ HAFAL;
- ◆ MIND Cymru;
- ◆ Coleg Brenhinol y Seiciatryddion;
- ◆ Coleg Brenhinol y Nyrsys.

Gwahoddwyd Cymdeithas y Cyfreithwyr i'r cyfarfod hefyd, ond nid oeddent yn gallu derbyn y gwahoddiad.

##### Ystyried y Dystiolaeth

3. Wrth ystyried y Mesur drafft, fe wnaeth y Pwyllgor ganolbwyntio ar y newidiadau a wnaed ers cyhoeddi'r Mesur Iechyd Meddwl Drafft yn 2002, ac i ba raddau y mae'r drafft newydd yn cwrdd â'r pryderon a fynegwyd bryd hynny.

##### Egwyddorion Cyffredinol

4. Roedd dystiolaeth ysgrifenedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn trafod a oedd y Mesur drafft yn seiliedig ar egwyddorion diamwys. Fe wnaethant argymhell nifer o faterion y dylai'r Mesur fynd i'r afael â hwn yn benodol fel egwyddorion. Roedd Hafal yn cefnogi'r farn honno.

##### Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor

- ◆ *Barn y Pwyllgor oedd y dylid nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r Mesur drafft yn glir. Nid oedd y drafft presennol, fel ag yn achos drafft 2002, yn gydnaws â pholisi'r Cynulliad.*

##### Amodau ar gyfer Triniaeth Orfodol

5. Roedd pawb a gyflwynodd dystiolaeth o'r farn y byddai'r diffiniad diwygiedig a'r amodau cysylltiedig yn arwain at fwy o achosion o gadw'n orfodol. Byddai grwpiau newydd yn dod o fewn cwrpas y ddeddfwriaeth, pan fyddai hynny'n amhriodol ar eu

cyfer, gan gynnwys pobl gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau a phobl gydag anhwylderau personoliaeth, lle nad oes llwybr triniaeth clir ar eu cyfer.

6. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion na ddylai unrhyw Ddeddf newydd gael effaith andwyol ar gleifion gwirfoddol (sydd wedi rhoi eu cydsyniad). Gallai hynny ddigwydd gan y byddai'r cleifion sydd dan orfodaeth yn cael blaenoriaeth wrth ddefnyddio adnoddau cyfyngedig. Cefnogodd Hafal y safbwynt hwn, ac roedd yn teimlo na fyddai'r Mesur yn helpu pobl sy'n chwilio am driniaeth yn wirfoddol yn ystod camau cyntaf unrhyw salwch meddwl.

### **Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor**

- ◆ *Roedd y diffiniad o anhwylder meddwl yn rhy eang ac roedd angen cynnwys eithriadau.*
- ◆ *Byddai'r pwyslais ar orfodaeth yn cael effaith sylweddol ar y galw am adnoddau. Byddai hynny'n arwain at lai o gyfleoedd ar gyfer ymyriadau therapiwtig cynnar pan ofynnir amdanynt yn wirfoddol. Dylid rhoi statws cyfartal i hawl pobl i gael triniaeth wirfoddol.*

### **Gorchmynion Triniaeth yn y Gymuned**

7. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, mynegodd Hafal bryder arbennig am y ffaith bod gofalwyr yn colli eu hawliau. Teimlwyd na fyddai gan ofalwyr y grym bellach i ofyn am ryddhau cleifion a'u bod yn cael eu heithrio, i bob pwrpas, gan fod y darpariaethau newydd ar gyfer y Person Enwebedig yn disodli hawliau blaenorol gofalwyr. Roedd Vicky Yates, gofalwr a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, yn teimlo y byddai'r gofalwyr yn ysgwyddo'r holl gyfrifoldebau ond na fyddai ganddynt unrhyw hawliau. Roedd yn teimlo y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn rhoi pwysau ar ofalwyr i sicrhau nad oedd cleifion yn torri'r amodau. Gallai hyn gael ei ystyried yn rhan o'r broses gymhellol, a gallai hynny gael effaith andwyol ar y berthynas rhwng y gofalwr a'r claf.

8. Mynegodd Hafal bryder hefyd bod Cymal 14(1) yn caniatáu i unrhyw un ofyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol gynnal asesiad o unigolyn sydd ag anhwylder meddwl. Gallai hynny arwain at geisiadau maleisus neu ddireidus.

9. Mynegodd Mind bryderon hefyd ynghylch y ffaith mai hawl i fod yn destun 'ymgyngori' yn unig oedd gan y person enwebedig ac nad oedd ganddo'r grym i ryddhau claf yn orfodol. Roeddent yn teimlo y dylai'r person enwebedig gael yr un pwerau â'r berthynas agosaf o dan y ddeddf bresennol ac y dylai gadw'r hawl i rwystro'r claf rhag cael ei dderbyn. Roedd Mind yn teimlo ei bod yn annhebygol y byddai angen rhoi triniaeth orfodol i rywun sy'n ddigon iach i fod yn y gymuned ac nid mewn ysbyty. Gallai fod yn anodd torri'r cylch o driniaeth orfodol lle dangoswyd bod triniaeth yn effeithiol, a lle gallai cael gwared ar orfodaeth roi'r claf mewn perygl.

10. Dywedodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wrth y Pwyllgor fod y Mesur yn darparu ar gyfer triniaeth orfodol mewn lleoliad gofal iechyd, ond nad oedd yn cynnwys digon o fanylion ynghylch sut y gellid cyflawni hynny. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, argymhellodd y dylai'r hawliau a'r systemau diogelu o dan y Mesur Gallu Meddwl a'r Mesur Iechyd Meddwl fod yr un fath.

### **Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor**

- ◆ *Byddai swyddogaeth y person enwebedig yn wannach na swyddogaeth y "berthynas agosaf" ar hyn o bryd. Roedd angen mynd i'r afael â hyn, yn ogystal â swyddogaeth a hawliau gofalwyr. Roedd y Pwyllgor yn argymhell y dylid gofyn i'r*

*Cyd-bwyllgor Seneddol edrych ar swyddogaethau'r person enwebedig a'r gofalwr yn y cylch asesu a rhoi triniaeth.*

- ◆ *Nid oedd y pryderon a gododd y Pwyllgor yn 2002 ynghylch triniaeth orfodol wedi'u bodloni. Roedd y rhain yn ymwneud â'r meini prawf ar gyfer gorfodi a sut y byddai triniaeth orfodol yn cael ei rhoi yn y gymuned.*
- ◆ *Gallai Cymal 14(1) gael ei gamddefnyddio gan bobl a oedd am wneud ceisiadau maleisus neu ddiridus am asesiadau. Cydnabuwyd mai bwriad y cymal hwn, fwy na thebyg, oedd amddiffyn hawliau teuluoedd a gofalwyr, ond roedd angen gwneud y bwriad yn fwy eglur.*
- ◆ *Roedd perygl y gallai pobl gael eu caethiwo mewn cylch o achosion gorfodi. Dylai unrhyw orfodaeth fod yn fesur dros dro yn unig.*
- ◆ *Roedd yn bwysig bod y darpariaethau a'r derminoleg yn y Mesur Iechyd Meddwl drafft a'r Mesur Gallu Meddwl sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn gyson.*

### **Yr Effaith ar Weithwyr Proffesiynol**

11. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Coleg Brenhinol y Nyrsys y gallai fod yn angenrheidiol i'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Cymeradwy fod â barn wahanol, neu farn groes, i farn nyrs sy'n gofalu, claf neu reolwr, a bod goblygiadau clir ar gyfer y swyddogaeth therapiwtig. Mae angen mwy o eglurder am y swyddogaeth. Roeddent yn ategu hyn yn eu tystiolaeth lafar pan fynegwyd y farn y gallai fod yn hynod niweidiol newid y pwyslais o berthynas therapiwtig sy'n seiliedig ar ofal i berthynas lle ceir gorfodaeth.

12. Roedd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn siomedig na chadwyd swyddogaeth y Gweithiwr Cymdeithasol Cymeradwy. Nid oedd y Mesur yn ystyried yr integreiddio cynyddol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac amcanion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol. Mynegodd Mind bryderon difrifol ynghylch y ffaith y byddai creu'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Cymeradwy yn arwain at gollu annibyniaeth. Ystyrir bod gan y Gweithwyr Cymdeithasol Cymeradwy presennol lefel o annibyniaeth gan nad oedd ef neu hi yn cael ei gyflogi/ei chyflogi gan y GIG fel arfer. Roedd defnyddwyr y gwasanaeth wedi bod yn bryderus iawn am y cynnig hwn.

13. Tynnodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion sylw at y prinder seiciatryddion ymgynghorol yng Nghymru ar hyn o bryd, a'r ffaith bod yna 40 o swyddi gwag. Amcangyfrifir y bydd angen 30 o seiciatryddion atodol, yn ychwanegol at y rhai a fydd yn llenwi'r lleoedd gwag, er mwyn sicrhau na fydd y gwasanaeth ar gyfer cleifion nad ydynt yn cael eu cadw yn dirywio.

### **Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor**

- ◆ *Gallai'r darpariaethau gorfodi yn y Mesur niweidio'r berthynas therapiwtig rhwng y claf a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.*
- ◆ *Ni fyddai'n briodol i weithiwr proffesiynol yn y gwasanaeth iechyd ysgwyddo swyddogaeth y Gweithiwr Cymdeithasol Cymeradwy.*
- ◆ *Pe bai nifer y bobl sy'n derbyn asesiad a thriniaeth orfodol yn cynyddu o dan y Mesur, fel a ragwelir, byddai'n rhaid recriwtio mwy o seiciatryddion.*

### **Goblygiadau Eraill o ran Adnoddau**

14. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, mynegodd yr holl sefydliadau bryderon ynghylch y goblygiadau ar gyfer adnoddau, o ran staffio ac arian. Mynegodd Coleg Brenhinol y Nyrsys a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y farn nad yw

gwasanaethau iechyd meddwl yn derbyn arian digonol ar hyn o bryd ac y byddai gofynion y Mesur yn gwaethygu'r broblem.

### **Casgliad y Pwyllgor**

- ◆ *Nodwyd y costau ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â darparu mwy o driwilysoedd ac eiriolaeth, er na thrafodwyd tystiolaeth ar y mater hwn.*

### **Yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymru**

15. Mynegodd Hafal y farn y byddai darpariaethau'r mesur yn ychwanegu at y stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl.

### **Casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor.**

- ◆ *Dylai'r Mesur geisio lleihau, yn hytrach na chynyddu, y stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Cyd-bwyllgor Seneddol ymdrin â'r mater hwn mewn manylder pan fydd yn craffu ar y Mesur.*

David Melding AC  
Cadeirydd  
Tachwedd 2004